# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 18 Chwefror 2003

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd*

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Faint o gyllid y mae'r Cynulliad wedi'i gyfrannu ar gyfer treialu Marchnad Stryd yng Nghaergybi. (WAQ22582)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Pa gymorth ariannol y gall Cartrefi Gofal Preifat ar Ynys Môn ei dderbyn yn sgîl y bartneriaeth rhwng y Grwp Datblygu Cartrefi Gofal, ar Ynys Môn, ac Uned Datblygu Economaidd y Cyngor Sir. (WAQ22583)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Pa ffynonellau o gymorth ariannol y gall Cartrefi Gofal Preifat ar Ynys Môn gael mynediad atynt drwy'r Bartneriaeth rhwng Uned Datblygu Economaidd y Cyngor Sir a'r Grwp Datblygu Cartrefi Gofal. (WAQ22584)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A oes ffynonellau Ewropeaidd y gall Cartrefi Gofal Preifat ar Ynys Môn gael mynediad atynt drwy'r Bartneriaeth rhwng Uned Datblygu Economaidd y Cyngor Sir a'r Grwp Datblygu Cartrefi Gofal (WAQ22585)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A all y Grwp Datblygu Cartrefi Gofal, ar Ynys Môn, dderbyn unrhyw gyllid Ewropeaidd i'w gynorthwyo. (WAQ22586)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A all y Grwp Datblygu Cartrefi Gofal, ar Ynys Môn, dderbyn unrhyw gyllid Ewropeaidd a fydd yn cynorthwyo'r sector cartrefi gofal preifat. (WAQ22587)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Pa gronfeydd sydd ar gael i gefnogi datblygiad y Sector Cartrefi Gofal Preifat ar Ynys Môn. (WAQ22588)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Pa ffynonellau o gymorth ariannol y gall Cartrefi Gofal Preifat ar Ynys Môn gael mynediad atynt. (WAQ22589)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** O ba ffynonellau y gallai'r Grwp Datblygu Cartrefi Gofal, ar

Ynys Môn, dderbyn cymorth. (WAQ22590)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Pa fecanweithiau sy'n bodoli i sicrhau y defnyddir cyllid Prosiect Chwarae a dderbynnir gan Gyngor Sir Ynys Môn ar gyfer chwarae mynediad agored. (WAQ22591)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Faint o gyllid Prosiect Chwarae y bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn ei dderbyn yn 2003-04 at ddiben chwarae mynediad agored. (WAQ22592)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Faint o gyllid y Prosiect Chwarae a gaiff ei ddyrannu i Gyngor Sir Ynys Môn yn ystod 2003/04 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'w wario ar Ardaloedd Chwarae. (WAQ22593)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Faint o arian a gaiff ei ddyrannu i Gyngor Sir Ynys Môn yn ystod 2003/04 i'w wario ar Ardaloedd Chwarae. (WAQ22594)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl cwrdd ag arweinydd Cyngor Sir Caerdydd er mwyn trafod y ffordd ymlaen, yn dilyn yr adolygiad diweddar o Wasanaethau Cymdeithasol Caerdydd. (WAQ22618)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa gynllun gweithredu y cytunwyd arno gyda Chyngor Sir Caerdydd er mwyn sicrhau'r newidiadau angenrheidiol i'r ddarpariaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, a dros pa gyfnod o amser y cynhelir y newidiadau hynny. (WAQ22619)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau*

**Dafydd Wigley (Caernarfon);** Yn dilyn ei hateb i WAQ21527 ar 23 Rhagfyr 2002, a wnaiff y Gweinidog nodi, o dan bob pennawd yn ei hateb a fesul blwyddyn, pa elfen o'r costau refeniw sy'n deillio o: (a) y taliadau llog ar gynnal y gwariant cyfalaf a (b) costau darparu'r gwasanaethau refeniw eraill sydd yn y contractau PFI. (WAQ22620)